Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**

Y Gwir Anrh. Michael Gove AS
Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn a'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Office
70 Whitehall
London
SW1A 2AS
United Kingdom

9 Mehefin 2020

Annwyl Michael,

**Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: rôl Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi bod yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru yn y negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, a'r goblygiadau ehangach y gallai canlyniadau posibl y negodiadau hyn eu cael i Gymru.

Mae hyn yn ymwneud â'r angen mwy uniongyrchol i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn ogystal â'r goblygiadau tymor hwy y gallai unrhyw gytundeb eu cael i Gymru a'r setliad datganoli.

Rydym wedi mynegi ein barn yn y gorffennol y byddai cael cytundeb masnach cyfyngedig, hyd yn oed, gyda'r Undeb Ewropeaidd yn well na gadael y cyfnod pontio heb gytundeb masnach.

Er mwyn i unrhyw gytundeb adlewyrchu buddiannau'r DU gyfan, ac i sicrhau bod unrhyw gytundeb yn cael ei weithredu'n effeithiol mewn meysydd datganoledig, rhaid i'r llywodraethau datganoledig gymryd rhan yn y negodiadau mewn ffordd ystyrlon trwy wneud cysylltiadau rhynglywodraethol cadarn a strwythuredig o fewn y DU.

Credwn fod dull o'r fath nid yn unig er budd gorau Cymru, ond hefyd er budd gorau holl genhedloedd y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod unrhyw gytundeb a wneir yn adlewyrchu economïau a chymdeithasau holl genhedloedd y DU a bod Llywodraeth Cymru mor barod â phosibl ar gyfer gweithredu unrhyw gytundeb a wneir yn y pen draw yn y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt.

Mae gan y rôl a roddir i Lywodraeth Cymru oblygiadau ar gyfer gallu Senedd Cymru i gyflawni ei rôl yn cynrychioli buddiannau pobl Cymru, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a pharatoi ar gyfer unrhyw gamau deddfwriaethol a all fod yn ofynnol i weithredu unrhyw gytundeb yn y pen draw. Gwnaethom sôn am hyn yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2019, [Cytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: rôl i'r Cynulliad [Senedd Cymru].]

Gwnaeth Llywodraeth flaenorol y DU ymrwymiadau i Lywodraeth Cymru i sicrhau y byddai ganddi rôl fwy ystyrlon a strwythuredig yn y negodiadau am berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol (nag yr oedd ganddi wrth negodi y Cytundeb Ymadael). Nodwn eich bod yn y gorffennol wedi ymrwymo i: "*working with the devolved administrations to deliver a future relationship with the EU that works for the whole of the UK*".

Ar 27 Mai 2020, ysgrifennodd Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, atom yn sôn am rôl Llywodraeth Cymru yn y negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, gweithredu'r Cytundeb Ymadael a pharatoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Disgrifiodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd lefel yr ymgysylltiad rhynglywodraethol fel a ganlyn:

> "[...] mae ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r Llywodraethau Datganoledig ynglŷn â'r negodiadau yn parhau'n ddiffygiol: er gwaethaf yr addewidion i wella hyn wrth i'r negodiadau ar y berthynas yn y dyfodol ddechrau, mae'r ymgysylltu â Gweinidogion wedi mynd hyd yn oed yn fwy annigonol.
>
> Er gwaethaf ei hymrwymiad ffurfiol yng nghylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) i geisio cytundeb â'r Llywodraethau Datganoledig ar y negodiadau, mae Llywodraeth y DU wedi methu â rhoi cyfle ystyrlon inni gael dylanwad.
>
> [...] y gwir yw nad oes gennym y rôl ystyrlon yn ail ran y negodiadau (ar y berthynas yn y dyfodol) yr oeddem wedi'i disgwyl ac a addawyd inni."

Ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ger ein bron ar 2 Mehefin 2020. Yn y cyfarfod hwn, wrth ateb cwestiynau, ymhelaethodd ar ei farn ynghylch cyflwr y cysylltiadau rhynglywodraethol (fel y maent yn berthnasol i faterion sy'n gysylltiedig â phontio â'r UE a'r berthynas yn y dyfodol). Disgrifiodd ryngweithio cyfyngedig Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru fel a ganlyn: "*[...] courteous and respectful, but, essentially, the UK Government is fundamentally uninterested*".

Darparwyd testunau cyfreithiol drafft y DU i Lywodraeth Cymru 24 awr yn unig cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n ehangach. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd fod hyn yn gwbl annerbynniol. Mae'r lefel hon o ymgysylltiad rhwng llywodraethau yn is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl yn rhesymol.

Yn sgîl yr ymgysylltiad cyfyngedig a di-strwythur rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ôl pob golwg hyd yn hyn, a disgrifiad plaen y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Brexit o'r ymgysylltiad hwn, rydym yn pryderu nad yw blaenoriaethau Cymru, a'r goblygiadau i’r setliad datganoli a allai ddeillio o unrhyw gytundeb yn y pen draw, yn cael eu hystyried gan y rhai sy'n cynnal y negodiadau.

Rydym yn credu y dylid anrhydeddu’r ymrwymiadau a wnaeth Llywodraeth y DU yn flaenorol i sicrhau rôl fwy sylweddol a strwythuredig ar gyfer y llywodraethau datganoledig yn ystod y negodiadau ar y berthynas yn y dyfodol.

Er y collwyd amser gwerthfawr, ac mae’n siomedig nad yw rôl y llywodraethau datganoledig wedi'i datrys yn gynt, nid yw'n rhy hwyr i gynyddu lefel yr ymgysylltiad ac i weithredu dull mwy strwythuredig o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

Os nad yw’r ymrwymiadau blaenorol yn cael eu hanrhydeddu, credwn y dylid rhoi rhesymau clir dros beidio â gwneud hynny.


Ar draws pedair gwlad y DU, rydym yn wynebu heriau sylweddol wrth inni ddechrau ein hadferiad gofalus ar ôl y pandemig COVID-19, a bydd llwyddiant y negodiadau am y berthynas yn y dyfodol yn effeithio ar ein gallu i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Rydym am weld cytundeb yn cael ei wneud ar y berthynas rhwng y DU a’r UE yn y dyfodol, ond rydym yn credu y dylid cynyddu lefel yr ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru a gwella ei strwythur os yw pobl Cymru am gael sicrwydd bod eu buddiannau, a’r setliad datganoli, yn cael eu diogelu’n ddigonol wrth gynnal y negodiadau ac o ran unrhyw gytundeb sy’n cael ei wneud yn y pen draw.

Rwy’n anfon copi o'r llythyr hwn at Joan McAlpine MSP, Cynullydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol, Bruce Crawford MSP, Cynullydd y Pwyllgor Cyllid a’r Cyfansoddiad, Colin McGrath MLA, Cadeirydd Pwyllgor y Swyddfa Weithredol, y Gwir Anrh. Hilary Benn AS, Cadeirydd y Pwyllgor ar y Berthynas yn y Dyfodol â'r UE, Iarll Kinnoull, Cadeirydd Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd, Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, a’r Wir Anrh. Penny Mordaunt AS, y Tâl-feistr Cyffredinol.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb i’r llythyr hwn a’r gwahoddiad i ymuno â’n cyfarfod rhithwir ar 30 Mehefin 2020.

Yn gywir,



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.